




Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl  
Rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu plant  
Canllaw anstatudol ar gyfer ymarferwyr



Gorffennaf 2019

## Rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu plant Canllaw anstatudol ar gyfer ymarferwyr

*Cyhoeddwyd o dan Adran 28 Deddf Plant 2004.*

---

### Pennod / Cynnwys

---

Crynodeb	2
Y saith rheol euraid ar gyfer rhannu gwybodaeth	3
Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018	4
Rhannu gwybodaeth er mwyn cynorthwyo diogelu	5
Sylwi ar arwyddion o gam-drin ac esgeulustod a chymryd camau pan fo plentyn mewn perygl	5
Y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu plant	7
Yr egwyddorion	9
Canllaw: chwalu'r mythau	11

## **Crynodeb**

Mae rhannu gwybodaeth yn ganolog i ymarfer diogelu da. Rhaid i ymarferwyr rannu gwybodaeth yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018, y cyfeirir atynt fel deddfwriaeth diogelu data'r DU. Mae'r ddeddfwriaeth diogelu data'n caniatáu rhannu gwybodaeth ac ni ddylid ei defnyddio'n awtomatig fel rheswm dros beidio â gwneud hynny. Un o'r amgylchiadau penodol sy'n darparu ar gyfer rhannu gwybodaeth yw er mwyn atal cam-drin neu niwed difrifol i eraill. Thema allweddol sy'n deillio o Adolygiadau Ymarfer Plant yw'r angen i gael gwell cyfathrebu a rhannu gwybodaeth amlasiantaethol. Pan na chaiff gwybodaeth ei rhannu mewn modd amserol ac effeithiol, efallai na fydd y penderfyniadau a wneir ynghylch sut i ymateb yn rhai cytbwys, a gall hyn arwain at ymarfer diogelu gwael a rhoi plant mewn perygl mawr o gael niwed.

## **Ynglŷn â'r canllaw hwn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio'r canllaw anstatudol hwn er mwyn atgoffa ymarferwyr sy'n gweithio ar draws asiantaethau o'u cyfrifoldebau i rannu gwybodaeth er mwyn diogelu plant, a'u cynorthwyo i ddeall yr amgylchiadau pan fydd modd rhannu gwybodaeth.

Nid yw'r canllaw hwn yn ymdrin yn fanwl â threfniadau rhyngasiantaethol ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol rhwng sefydliadau neu fel rhan o systemau TG a rennir. Fodd bynnag, mae diogelu yn gyfrifoldeb i bawb a gall Protocolau Rhannu Gwybodaeth gynorthwyo asiantaethau yn y rôl hon ac wrth hyrwyddo llesiant pobl er mwyn atal perygl niwed.

## **Ar gyfer pwy y mae'r canllaw hwn?**

Mae'r cyngor hwn ar gyfer pob ymarferydd a rheolwr rheng flaen sy'n gweithio gyda phlant (hyd at 18 oed), rhieni, gofalwyr a theuluoedd sy'n gorfod gwneud penderfyniadau ynghylch rhannu gwybodaeth bersonol fesul achos, lle y ceir pryderon yn ymwneud â diogelu.

## Rheolau euraid ar gyfer rhannu gwybodaeth

1. Cofiwch nad yw'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), Deddf Diogelu Data 2018 na chyfraith hawliau dynol yn rhwystro rhannu gwybodaeth mewn modd cyfiawn, ond maent yn darparu fframwaith ar gyfer sicrhau bod gwybodaeth bersonol am unigolion byw yn cael ei rhannu'n briodol.
2. O'r cychwyn cyntaf, byddwch yn agored ac yn onest gydag unigolion (a/neu eu teuluoedd pan fo hynny'n briodol) ynglŷn â pham, sut ac â phwy y bydd neu y gallai eu gwybodaeth gael ei rhannu, a cheisiwch eu cytundeb, oni bai y byddai'n annigel neu'n amhriodol gwneud hynny.
3. Mae'r GDPR yn rhoi hawl i bobl gael eu hysbysu. Golyga hyn fod yn rhaid iddynt gael gwybod sut y caiff eu data ei ddefnyddio. Fodd bynnag, yn ôl y GDPR a Deddf Diogelu Data 2018, gallwch rannu gwybodaeth heb ganiatâd os oes sail gyfreithlon dros wneud hynny, yn eich tyb chi. Bydd angen ichi seilio eich barn ar ffeithiau'r achos. Pan fyddwch yn rhannu neu'n gwneud cais am wybodaeth bersonol gan rywun, byddwch yn glir ynghylch pam yr ydych yn gwneud hynny. Pan na fydd gennych ganiatâd, byddwch yn ymwybodol na fydd yr unigolyn yn disgwyl i'r wybodaeth gael ei rhannu, o bosibl.
4. Os ydych yn ansicr ynglŷn â rhannu'r wybodaeth dan sylw, ceisiwch gyngor gan ymarferwyr eraill, neu gan eich arweinydd llywodraethu gwybodaeth, heb ddatgelu pwy yw'r unigolyn pa bryd bynnag y bo modd.
5. Ystyriwch ddiogelwch a llesiant: seiliwch y penderfyniadau a wnewch ynghylch rhannu gwybodaeth ar ystyriaethau'n ymwneud â diogelwch a llesiant yr unigolion a phobl eraill y gallai eu camau effeithio arnynt.
6. Angenrheidiol, cymesur, perthnasol, digonol, manwl gywir, amserol a diogel: gwnewch yn siŵr fod yr wybodaeth a rannwch yn angenrheidiol ar gyfer y pwrpas sydd gennych dan sylw, ei bod yn cael ei rhannu dim ond â'r unigolion hynny y mae arnynt ei hangen, ei bod yn fanwl gywir ac yn ddiweddar, ei bod yn cael ei rhannu mewn modd amserol, a'i bod yn cael ei rhannu mewn modd diogel (gweler Egwyddorion).
7. Cadwch gofnod o'ch penderfyniad a'r rhesymau sy'n sail iddo – pa un a fyddwch yn penderfynu rhannu'r wybodaeth, ai peidio. Os penderfynwch ei rhannu, cofnodwch yr hyn yr ydych wedi'i rannu, gyda phwy, ac ar gyfer pa bwrpas.

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018

Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 yn cyflwyno elfennau newydd i'r system diogelu data, gan ddisodli Deddf Diogelu Data 1998. Rhaid i ymarferwyr roi sylw dyledus i'r egwyddorion diogelu data perthnasol sy'n caniatáu iddynt rannu gwybodaeth bersonol.

Mae'r GDPR a Deddf Diogelu Data 2018 yn rhoi mwy o bwysigrwydd ar i sefydliadau fod yn glir ac yn atebol mewn perthynas â'u defnydd o ddata. Rhaid i bob sefydliad sy'n delio â data personol gael trefniadau cynhwysfawr a chymesur ar gyfer casglu, storio a rhannu gwybodaeth.

**Nid yw'r GDPR na Deddf Diogelu Data 2018 yn atal nac yn cyfyngu ar rannu gwybodaeth at ddibenion cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.**

Er mwyn rhannu gwybodaeth yn effeithiol:

- dylai'r holl ymarferwyr fod yn hyderus gyda'r amodau prosesu, sy'n caniatáu iddynt storio a rhannu'r wybodaeth y mae arnynt ei hangen i fynd i'r afael â'u rôl diogelu. Yn aml, bydd gwybodaeth sy'n berthnasol i ddiogelu yn ddata a ystyrir yn 'ddata personol categori arbennig', sy'n golygu ei fod yn ddata sensitif a phersonol.
- pan fydd ymarferwyr angen rhannu data personol categori arbennig, dylent fod yn ymwybodol fod Deddf Diogelu Data 2018 yn cynnwys 'diogelu plant ac unigolion mewn perygl' fel amod sy'n caniatáu i ymarferwyr rannu gwybodaeth heb ganiatâd.
- gellir rhannu gwybodaeth yn gyfreithlon heb ganiatâd os na all yr ymarferydd gael caniatâd gan yr unigolyn, os na ellir disgwyl yn rhesymol iddo gael caniatâd gan yr unigolyn, neu pe gallai cael caniatâd roi plentyn mewn perygl.
- gellir rhannu gwybodaeth bersonol yn gyfreithlon os yw hynny'n cael ei wneud er mwyn cadw plant neu unigolion sydd mewn perygl yn ddiogel rhag esgeulustod neu niwed corfforol, emosiynol neu feddyliol, neu os yw'n diogelu eu llesiant corfforol, meddyliol neu emosiynol.

Mae'n bwysig hefyd:

- I ofnau ynglŷn â rhannu gwybodaeth beidio â bod yn rhwystr i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.
- I bob ymarferydd ysgwyddo cyfrifoldeb dros rannu'r wybodaeth sydd ganddynt. Ni ddylent dybio y bydd rhywun arall yn trosglwyddo'r wybodaeth – sef gwybodaeth a allai fod yn hollbwysig o ran cadw plentyn yn ddiogel.

- I ymarferwyr ddeall sut i weithio ar y cyd ag asiantaethau eraill i rannu gwybodaeth mewn modd cymesur ac amserol er mwyn atal niwed.

## Rhannu gwybodaeth er mwyn cynorthwyo diogelu

Dylai trefniadau diogelu effeithiol ym mhob ardal awdurdod lleol gael eu hategu gan ddwy brif egwyddor<sup>1</sup>:

**Mae diogelu'n gyfrifoldeb i bawb:** er mwyn i wasanaethau fod yn effeithiol rhaid i'r ymarferwyr a'r asiantaethau i gyd chwarae eu rhan yn llwyr, yn unigol a hefyd ar y cyd;

**Dull plentyn-ganolog:** er mwyn i wasanaethau fod yn effeithiol dylent fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o'r canlyniadau personol ar gyfer y plant a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Dylai hawliau'r plant fod yn ganolog i'r dull a dylai eu buddiannau pennaf fod o'r pwys mwyaf bob amser.

Mae rhannu gwybodaeth yn rhan hanfodol o swydd unrhyw ymarferydd rheng flaen wrth weithio gyda phlant. Gall penderfyniadau ynghylch faint o wybodaeth i'w rhannu, gyda phwy a phryd, gael effaith ddofn ar fywydau unigolion. Mae rhannu gwybodaeth yn helpu i sicrhau bod unigolyn yn cael y gwasanaethau iawn ar yr adeg iawn, ac yn rhwystro'r angen rhag mynd yn fwy difrifol ac yn anos i'w ddiwallu. Mae enghreifftiau gwael o rannu gwybodaeth – neu o beidio â rhannu gwybodaeth o gwbl – yn thema a welir dro ar ôl tro wrth ddysgu ar sail Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru.

## Sylwi ar arwyddion o gam-drin ac esgeulustod a chymryd camau pan fo plentyn mewn perygl

Dylai'r holl ymarferwyr a ddaw i gysylltiad â phlant a theluoedd gael hyfforddiant diogelu, sy'n briodol i'w rôl; deall sut i adnabod arwyddion o gam-drin, esgeulustod a niwed i blant a'u cyfrifoldebau i gymryd camau pan fyddant o'r farn y gall plentyn fod mewn perygl. Dylai hyfforddiant diogelu gynnwys deunydd yn ymwneud â rhannu gwybodaeth.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru'n cefnogi dull cyson o ddiogelu plant ac oedolion ledled Cymru. Mae Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan i'w cael, sy'n ymwneud â phlant mewn amgylchiadau diogelu penodol, a dylid eu defnyddio ar y cyd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae'r canllawiau ymarfer hyn yn cynnwys gwybodaeth bellach am ddangosyddion cam-drin, esgeulustod a niwed i blant.

Ymhellach, bydd gan asiantaethau bolisiau a gweithdrefnau diogelu sefydliadol ar waith, a fydd yn pennu proses ar gyfer sut i fwrw ymlaen â phryder yn ymwneud â diogelu. Fel arfer, mae'r rhain yn nodi y dylai ymarferwyr drafod y mater diogelu gyda rheolwr a/neu Arweinydd Diogelu sefydliadol.

Os yw ymarferydd o'r farn y gall plentyn fod mewn perygl uniongyrchol o ddioddef niwed, rhaid iddo gysylltu â'r Heddlu ar 999.

Mae gan bartneriaid perthnasol Ddyletswydd i Adrodd am Blant mewn Perygl (Adran 130) dan [Ran 7](#) y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae Adran 130(4) yn diffinio "plentyn mewn perygl" fel plentyn sy'n:

- a) profi, neu mewn perygl o brofi, cam-drin, esgeulustod neu fathau eraill o niwed; ac
- b) sydd ag anghenion gofal a chymorth (pa un a yw'r awdurdod lleol yn diwallu unrhyw un o'r anghenion hynny, ai peidio).

Pan roddir gwybod am blentyn dan adran 130, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried a oes yna sail dros gynnal ymholiadau dan adran 47 Deddf Plant 1989.

## Y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu plant

Dyma'r asiantaethau allweddol a chanddynt ddyletswydd dan **adran 28(1) Deddf Plant 2004** i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant yng Nghymru:

- a) yr awdurdod lleol;
- b) y Bwrdd Iechyd Lleol;
- c) ymddiriedolaeth GIG y mae ei hysbytai, ei sefydliadau a'i chyfleusterau i gyd – neu'r rhan fwyaf ohonynt – wedi'u lleoli yng Nghymru;
- ch) y corff plismona lleol a phrif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru;
- d) yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol;
- dd) Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain, o safbwynt arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru;
- e) bwrdd prawf lleol ar gyfer ardal yng Nghymru;
- f) yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â'i swyddogaethau dan adrannau 2 a 3 Deddf Rheoli Troseddwy 2007, i'r graddau y gellir eu harfer mewn perthynas â Chymru;
- ff) tîm troseddau ieuenctid ar gyfer ardal yng Nghymru;
- g) llywodraethwr carchar neu ganolfan hyfforddi ddiogel yng Nghymru (neu, yn achos carchar neu ganolfan hyfforddi ddiogel a gaiff eu rhedeg trwy gontract allanol, y cyfarwyddwr);
- ng) pennaeth coleg diogel yng Nghymru;
- h) unrhyw berson i'r graddau y mae'n darparu gwasanaethau'n unol â threfniadau a wnaed gan awdurdod lleol yng Nghymru dan adran 123(1)(b) Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 (c. 21) (gwasanaethau cymorth ieuenctid).

Ceir dyletswydd i gydweithio a darparu gwybodaeth wrth arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol dan adran **164 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**.

Os bydd awdurdod lleol yn gofyn am gydweithrediad:

- a) Partner perthnasol<sup>2</sup> yr awdurdod lleol sy'n gwneud y cais;
- b) Awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth GIG nad ydynt yn bartner perthnasol yr awdurdod lleol sy'n gwneud y cais;



- c) Tîm troseddau ieuenctid ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni oddi mewn i ardal yr awdurdod lleol sy'n gwneud y cais;

wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, rhaid i'r person gydymffurfio â'r cais oni bai ei fod yn ystyried y byddai gwneud hynny –

- yn anghydnaws â dyletswyddau'r person ei hun, neu
- fel arall yn cael effaith niweidiol ar y modd y mae'r person yn arfer ei swyddogaethau.

Rhaid i berson sy'n penderfynu peidio â chydymffurfio â chais o'r fath roi rhesymau ysgrifenedig dros y penderfyniad i'r awdurdod lleol a wnaeth y cais.

Mae **Adran 137 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn rhoi pwerau i Fwrdd Diogelu wneud cais am wybodaeth benodol gan berson neu gorff cymhwysol, cyn belled mai pwrpas y cais yw galluogi neu gynorthwyo'r Bwrdd i gyflawni ei swyddogaethau dan y Ddeddf.

Diffinnir "person neu gorff cymhwysol" fel "person neu gorff y mae ei swyddogaethau neu ei weithgareddau yn cael eu hystyried gan y Bwrdd yn rhai sy'n golygu bod y person neu'r corff yn debygol o feddu ar wybodaeth sy'n berthnasol i arfer un o swyddogaethau'r Bwrdd."

Gall yr wybodaeth ymwneud â'r canlynol:

- (a) y person neu'r corff cymhwysol y cyflwynir y cais iddo;
- (b) swyddogaeth neu weithgaredd y person neu'r corff cymhwysol hwnnw, neu
- (c) berson sy'n arfer neu sy'n gysylltiedig â swyddogaeth neu weithgaredd y person neu'r corff cymhwysol hwnnw.

Bwriad Adran 137 y Ddeddf yw galluogi Bwrdd Diogelu i wneud cais am wybodaeth a thrin gwybodaeth yn gyfreithlon, yn cynnwys data personol a sensitif gan y personau neu'r cyrff hynny sy'n "debygol" o feddu ar wybodaeth sy'n berthnasol i arfer swyddogaethau'r Bwrdd.

Un o swyddogaethau Bwrdd Diogelu yw ymgysylltu ag unrhyw weithgaredd arall sy'n hwyluso neu sy'n gydnaws â chyflawni ei amcanion.<sup>3</sup> Amcanion Bwrdd Diogelu Plant yw:<sup>4</sup>

- a) amddiffyn plant o fewn ei ardal sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, eu cam-drin, eu hesgeuluso, neu ddioddef mathau eraill o niwed, ac
- b) atal plant o fewn ei ardal rhag dod yn rhai sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed.

**Protocolau Rhannu Gwybodaeth** – Offeryn yw Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Personol Cymru ([WASPI](#)) ar gyfer helpu asiantaethau i rannu gwybodaeth personol yn effeithiol ac yn gyfreithlon. Mae'r dull cyson a hyrwyddir gan WASPI, a'r arfer da a rennir trwy gyfrwng y wefan, yn helpu sefydliadau i fodloni eu cyfrifoldebau o safbwynt diogelu data wrth iddynt symud tuag at fodlau gwasanaeth cydweithredol mewn tirlun deddfwriaethol cyfnewidiol. Mae gan bob asiantaeth ei safonau, ei chodau moeseg proffesiynol a'i diwylliant sefydliadol ei hun mewn perthynas â

gwybodaeth. Mae [Fframwaith WASPI](#) yn cynnig dull ymarferol o rannu gwybodaeth bersonol, gan ddarparu templedi a safonau cyffredin ar gyfer datblygu Protocolau Rhannu Gwybodaeth a Chytundebau Datgelu Data. Ei nod cyffredinol yw helpu darparwyr gwasanaethau cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau effeithiol tra'n cydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol – sef y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.

Gall ymarfer sy'n mynd ati'n rhagweithiol i ofyn am ganiatâd rhieni i rannu gwybodaeth yn ystod y cyswllt cyntaf gynorthwyo ymarferwyr i fod â'r hyder i rannu gwybodaeth er mwyn ategu cymorth ataliol cyn i'r amgylchiadau ddwysáu a chyrraedd sefyllfa lle y rhoddir plentyn mewn perygl. Ymhellach, bydd y dull hwn yn cynorthwyo ymarferwyr i weithredu mewn modd amserol i rannu gwybodaeth lle y ceir unrhyw dystiolaeth i awgrymu y gall plentyn fod mewn perygl o gael niwed.

## Yr egwyddorion

Dylai ymarferwyr ddefnyddio'u barn wrth wneud penderfyniadau ynghylch pa wybodaeth i'w rhannu, a dylent ddilyn gweithdrefnau sefydliadol. **Yr ystyriaeth bwysicaf yw a yw rhannu gwybodaeth yn debygol o gynorthwyo i ddiogelu a gwarchod plentyn.**

Ceir nifer o egwyddorion a all gynorthwyo ymarferwyr i wneud penderfyniadau ynghylch rhannu gwybodaeth:

**Angenrheidiol a chymesur** – Wrth wneud penderfyniadau ynghylch pa wybodaeth i'w rhannu, dylech ystyried faint o wybodaeth yr ydych angen ei rhyddhau. Eiflen allweddol o'r GDPR a Deddf Diogelu Data 2018 yw peidio â rhannu mwy o ddata nag sy'n angenrheidiol, a dylech ystyried yr effaith a gaiff datgelu'r wybodaeth ar destun yr wybodaeth ac unrhyw drydydd partïon. Rhaid i'r wybodaeth fod yn gymesur â'r angen ac â lefel y risg.

**Perthnasol** – Dim ond gwybodaeth sy'n berthnasol i'r dibenion y dylid ei rhannu gyda'r rhai y mae arnynt ei hangen. Mae hyn yn caniatáu i eraill wneud eu gwaith yn effeithiol a gwneud penderfyniadau cytbwys.

**Digonol** – Dylai'r wybodaeth fod yn ddigonol ar gyfer ei diben. Dylai'r wybodaeth fod o'r ansawdd iawn er mwyn sicrhau y gellir ei deall a dibynnu arni.

**Manwl gywir** – Dylai'r wybodaeth fod yn fanwl gywir ac yn ddiweddar, a dylai wahaniaethu'n glir rhwng ffaith a barn. Os yw'r wybodaeth yn hanesyddol, dylid esbonio hyn.

**Amserol** – Dylid rhannu gwybodaeth mewn modd amserol er mwyn lleihau'r risg y bydd cyfleoedd i ddarparu cymorth a diogelwch i blant yn cael eu colli. Mae gweithredu mewn modd amserol yn allweddol mewn argyfyngau, ac efallai na fydd yn briodol gofyn am ganiatâd i rannu gwybodaeth pe bai hynny'n arwain at oedi ac felly'n cynyddu'r risg y gallai plentyn neu berson ifanc ddiodef niwed. Dylai

ymarferwyr sicrhau bod gwybodaeth ddigonol yn cael ei rhannu, yn ogystal ag ystyried y brys o safbwynt ei rhannu.

**Diogel** – Pa bryd bynnag y bo modd, dylid rhannu gwybodaeth mewn modd priodol a diogel. Rhaid i ymarferwyr ddilyn polisi diogelwch eu sefydliad wrth ddelio â gwybodaeth bersonol bob amser.

**Cofnodi** – Dylai penderfyniadau'n ymwneud â rhannu gwybodaeth gael eu cofnodi, pa un a benderfynir rhannu'r wybodaeth, ai peidio. Os penderfynir rhannu'r wybodaeth, dylid nodi'r rhesymau, yn cynnwys pa wybodaeth sydd wedi'i rhannu ac â phwy, yn unol â gweithdrefnau sefydliadol. Os penderfynir peidio â rhannu'r wybodaeth, mae'n arfer da cofnodi'r rhesymau dros wneud y penderfyniad hwn a'u trafod gyda'r sawl a gyflwynodd y cais. Yn unol â pholisi cadw pob sefydliad, ni ddylid cadw'r wybodaeth yn hwy nag y bo angen. Mewn rhai amgylchiadau prin, gall hyn fod am gyfnod amhenodol; ond, os felly, dylid cynnal proses adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau nad yw'r data'n cael ei gadw'n ddianghenraid.

## Canllaw: chwalu'r mythau

Mae rhannu gwybodaeth rhwng ymarferwyr a sefydliadau'n hanfodol er mwyn gallu pennu, asesu, rheoli risgiau a darparu gwasanaethau'n effeithiol. Ni ellir gadael i ofnau ynghylch rhannu gwybodaeth fod yn rhwystr i'r angen i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Isod ceir mythau cyffredin a all rwystro rhannu gwybodaeth yn effeithiol.

### **Mae'r GDPR a Deddf Diogelu Data 2018 yn rhwystrau i rannu gwybodaeth**

Nac ydynt – nid yw'r GDPR na Deddf Diogelu Data 2018 yn gwahardd yr arfer o gasglu a rhannu gwybodaeth bersonol. Maent yn darparu fframwaith er mwyn sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu'n briodol. Yn arbennig, mae Deddf Diogelu Data 2018 yn cydbwysu hawliau testun yr wybodaeth (yr unigolyn y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef) a'r angen posibl i rannu gwybodaeth amdano. Ni ddylid tybio byth fod rhannu gwybodaeth yn cael ei wahardd – mae'n hanfodol ystyried y cydbwysedd hwn ym mhob achos. Dylech bob amser gadw cofnod o'r hyn yr ydych wedi'i rannu.

### **Rhaid cael caniatâd bob amser i rannu gwybodaeth bersonol**

Na – nid ydych o angenrheidrwydd angen caniatâd testun yr wybodaeth i rannu ei wybodaeth bersonol.

Pa bryd bynnag y bo modd, dylech ofyn am ganiatâd a bod yn agored ac yn onest gyda'r unigolyn o'r cychwyn cyntaf pam, beth, sut ac â phwy y bydd ei wybodaeth yn cael ei rhannu. Dylech geisio caniatâd pan na fydd unigolyn o bosibl yn disgwyl i'w wybodaeth gael ei throsglwyddo. Ar ôl cael caniatâd i rannu gwybodaeth, rhaid i'r caniatâd fod yn ddiamwys, a dylai fod wedi'i roi'n rhydd.

Efallai y bydd rhai amgylchiadau pan na fydd yn briodol ceisio caniatâd, naill ai gan na all yr unigolyn roi caniatâd, gan nad yw'n rhesymol cael caniatâd, neu gan y byddai cael caniatâd yn rhoi diogelwch neu lesiant plentyn neu berson ifanc yn y fantol.

Pan wneir penderfyniad i rannu gwybodaeth heb ganiatâd, dylid cadw cofnod o'r hyn sydd wedi'i rannu.

### **Ni all gwybodaeth bersonol a gasglwyd gan un sefydliad gael ei datgelu i sefydliad arall**

Na – nid yw hyn yn wir, oni bai y bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio ar gyfer pwrpas sy'n anghydnaws â'r pwrpas y'i casglwyd ar ei gyfer yn wreiddiol. Yn achos plant mewn angen, neu blant mewn perygl o gael niwed sylweddol, mae'n anodd rhagweld amgylchiadau lle y byddai cyfraith gwybodaeth yn rhwystro'r arfer o rannu gwybodaeth bersonol gydag ymarferwyr eraill.

Dylai ymarferwyr sy'n dymuno rhannu gwybodaeth ystyried pa amod prosesu yn Neddf Diogelu Data 2018 sydd fwyaf priodol i'w ddefnyddio yn amgylchiadau

penodol yr achos. Gall fod yn amod prosesu'n ymwneud â diogelu, neu'n ddarpariaeth berthnasol arall.

Mae bod yn glir ymlaen llaw fel rhan o'r hysbysiad preifatrwydd gwreiddiol pan fo modd yn helpu i sicrhau tryloywder, ynghyd â sicrhau bod gofynion GDPR yn cael eu bodloni, ond bydd materion fel diogelu'n dal i gyfiawnhau'r arfer o rannu gwybodaeth, hyd yn oed os na fu modd pennu'r holl ddata sydd i'w rannu wrth iddo gael ei gasglu.

### **Mae dyletswydd hyder cyfraith gyffredin a Deddf Hawliau Dynol 1998 yn atal yr arfer o rannu gwybodaeth bersonol**

Na – nid yw hyn yn wir. Yn ogystal â'r GDPR a Deddf Diogelu Data 2018, rhaid i ymarferwyr gydbwyso dyletswydd hyder cyfraith gyffredin, a'r hawliau a nodir yn Neddf Hawliau Dynol 1998, yn erbyn yr effaith ar blant neu unigolion mewn perygl, pe na baent yn rhannu'r wybodaeth.

Os bydd casglu a rhannu gwybodaeth yn digwydd gyda chaniatâd yr unigolion dan sylw, cyn belled â'u bod yn cael eu hysbysu'n glir ynghylch pwrpas y rhannu, ni ddylai unrhyw dor-cyfrinachedd ddigwydd ac ni ddylai Deddf Hawliau Dynol 1998 gael ei thorri. Os yw'r wybodaeth yn gyfrinachol, ac os na cheir caniatâd testun yr wybodaeth, yna rhaid i'r ymarferwyr benderfynu a oes yna sail dros rannu'r wybodaeth heb ganiatâd. Fe allai hyn ddigwydd gan y byddai o fudd aruthrol i destun yr wybodaeth pe bai'r wybodaeth yn cael ei datgelu. Mae'n bosibl hefyd y byddai budd y cyhoedd yn cyfiawnhau datgelu'r wybodaeth (neu gan fod gorchymyn llys, rhwymedigaeth gyfreithiol arall neu eithriad statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth gael ei rhannu).

O ran diogelu plentyn neu berson ifanc, lle y mae llesiant y plentyn o'r pwys mwyaf, mae'n bosibl y gellid goresgyn dyletswydd hyder cyfraith gyffredin. Rhaid i'r ymarferwyr ystyried hyn fesul achos. Fel gyda phob achos o brosesu gwybodaeth, rhaid ystyried ar y cychwyn a oes modd cyflawni'r nod trwy gyfyngu ar faint o wybodaeth a rennir – a oes angen rhannu'r wybodaeth bersonol i gyd er mwyn cyflawni'r nod?

### **Yn aml, mae systemau TG yn rhwystr i rannu gwybodaeth yn effeithiol**

Na – gall systemau TG fod yn ddefnyddiol o ran cynorthwyo i rannu gwybodaeth. Mae systemau TG ar eu mwyaf gwerthfawr pan fydd ymarferwyr yn defnyddio'r data sydd wedi'i rannu i wneud penderfyniadau mwy cytbwys ynghylch sut i geisio diogelu plentyn. Mae tystiolaeth Adolygiad Munro yn nodi'n glir na all systemau TG fod yn gwbl effeithiol hyd nes y bydd unigolion o sefydliadau'n cydweithredu i ddiwallu anghenion y plentyn unigol.

Barn broffesiynol yw'r agwedd fwyaf hanfodol ar waith amlasiantaethol, a gellid rhoi hyn yn y fantol pe bai sefydliadau'n dibynnu gormod ar systemau TG.

Awdurdod annibynnol yw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a sefydlwyd i gynnal hawliau gwybodaeth er budd y cyhoedd. Mae'n hyrwyddo'r arfer o fod yn agored ymhlith cyrff cyhoeddus a phreifatrwydd data i unigolion. Ceir adnoddau a chyngor ar eu gwefan.

<https://ico.org.uk/>

Dymuna Llywodraeth Cymru gydnabod bod y canllaw hwn wedi'i lunio trwy addasu cyhoeddiad Adran Addysg Llywodraeth y DU [Information sharing: advice for practitioners providing safeguarding services](#), a ddiweddarwyd ym mis Gorffennaf 2018.

---

<sup>1</sup> *Working together to safeguard children 'A guide to inter-agency working to safeguard and promote the welfare of children'*, Mawrth 2015.

<sup>2</sup> Diffinnir partneriaid perthnasol yn adran 162(4) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fel:

- (a) y corff plismona lleol a phrif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal heddlu y mae unrhyw ran ohoni oddi mewn i ardal yr awdurdod lleol;
- (b) unrhyw awdurdod lleol arall y bydd yr awdurdod yn cytuno y byddai'n briodol cydweithio gydag ef dan yr adran hon;
- (c) yr Ysgrifennydd Gwladol i'r graddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cyflawni swyddogaethau dan adrannau 2 a 3 Deddf Rheoli Troseddwyr 2007, mewn perthynas â Chymru;
- (ch) unrhyw ddarparwr gwasanaethau prawf y mae'n angenrheidiol iddo, yn ôl trefniadau dan adran 3(2) Deddf Rheoli Troseddwyr 2007, weithredu fel partner perthnasol yr awdurdod;
- (d) Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni oddi mewn i ardal yr awdurdod lleol;
- (dd)ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod;
- (e) Gweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn cyflawni swyddogaethau dan Ran 2 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000;
- (f) y cyfryw berson, neu berson o'r cyfryw ddisgrifiad, a nodir yn y rheoliadau.

<sup>3</sup> <https://gov.wales/docs/phhs/publications/160404part7guidevol1en.pdf>

<sup>4</sup> Adran 135 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Swyddogaethau a Gweithdrefnau Byrddau Diogelu.